**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid

22 Mai 2025

Annwyl Peredur,

**Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru**

Diolch am eich llythyr ac am roi cyfle i'r Pwyllgor gyfrannu at eich gwaith ar broses y gyllideb. Ar y cyfan, mae'r Pwyllgor wedi bod yn fodlon ar y dystiolaeth yr ydym wedi ei chael yn y cylchoedd cyllidebol diweddaraf, ond mae gennym rai syniadau a sylwadau yr hoffem eu rhannu.

## Amseru

Testun siom i mi yw bod Llywodraeth Cymru yn rheolaidd wedi cyhoeddi ei chyllideb ddrafft mewn ffordd sy'n golygu bod cyfnod craffu'r pwyllgorau yn cynnwys toriad y Nadolig. Nodaf fod eich Pwyllgor yn rhannu'r un rhwystredigaeth.[1]

Derbyniaf fod Llywodraeth y DU i ryw raddau yn cyfyngu ar broses gyllidebol Llywodraeth Cymru, ond mae amseru pob cylch cyllidebol yn y Senedd hon – yn cwmpasu toriad y Nadolig – yn anffafriol i waith craffu da. Mae amseru fel hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar randdeiliaid ar adeg pan fo llawer o bobl yn absennol a llawer o swyddfeydd ar gau, ac mae hefyd yn cyfyngu ar yr amser sydd gan bwyllgorau yn eu cyfarfodydd i adolygu'r gyllideb ddrafft. Ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n galed i sicrhau nad yw pwyllgorau'n gorfod craffu arnynt dros doriad y Nadolig.

---

[1] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: [Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25](), paragraff 17

## Tystiolaeth sy’n dod i law

Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar y dystiolaeth yr ydym yn ei chael fel rhan o broses y gyllideb. Hoffwn nodi bod y disgrifiad o gamau gweithredu ar ffurf tablau gweithgareddau BEL wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i ni. Yn gyffredinol, yn ogystal â’r manylion cyllideb a ddarperir, rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith bod papurau tystiolaeth ynghylch y gyllideb yn rhoi diweddariad cyffredinol defnyddiol ar draws portffolios, sy’n eu gwneud yn ddefnyddiol o ran tryloywder a gwaith craffu parhaus.

Fodd bynnag, yn y dyfodol, hoffem weld mwy o wybodaeth am y gwaith ymgysylltu y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud â rhanddeiliaid penodol ac yn ehangach â dinasyddion ar ddatblygu ei chyllideb fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth. Byddai hyn yn ein helpu ni i ddeall y gwaith meddwl y tu ôl i benderfyniadau ac yn caniatáu inni ganolbwyntio ein gwaith ar y gyllideb.

## Effaith gyfyngedig

Er fy mod yn croesawu'r cyfle i graffu ar y gyllideb, a bod hyn, fel y nodir uchod, yn rhan greiddiol o'n gwaith craffu parhaus ar Lywodraeth Cymru, yn bersonol, fe welaf fod effaith gwaith craffu pwyllgorau ar y gyllideb braidd yn gyfyngedig. Mae ein system gyfrannol wedi tueddu i arwain at Lywodraeth leiafrifol neu Lywodraeth â mwyafrif bach iawn. Mae hyn yn golygu bod rhaid wrth gytundebau gwleidyddol, fel arfer y tu ôl i'r llenni, er mwyn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu pasio. O ganlyniad, gall proses y gyllideb ei hun deimlo braidd fel fait accompli.

Diolch eto am y cyfle i gyfrannu at y gwaith hwn.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg